**ADRODDIAD I'R CABINET**
14 GORFFENNAF 2015

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS – AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** RHAGLEN GYFALAF 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER GYNTAF (30 MEHEFIN 2015)

**Swyddog Cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Adroddir ar adolygiad y chwarter gyntaf (sefyllfa 30 Mehefin 2015) o'r rhaglen gyfalaf, a gofynnir i Gabinet 14 Gorffennaf 2015 gymeradwyo'r ariannu addasedig.

---

**Cyflwyniad / Crynodeb**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o broses monitro'r gyllideb 2015/16. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 2 rhan:

Rhan 1: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £76.1m am y 3 blynedd 2015/16 – 2017/18.

Rhan 2: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £9.7m ers y gyllideb agoriadol, gyda £4.3m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2014/15 (adroddwyd eisoes ar 2 Mehefin 2015.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

---

**Prif Gasgliadau:**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £41m yn 2015/16, gyda £13m wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Llwyddodd y Cyngor i wario ychydig dros £8.9m, sef bron i 22% o'r gyllideb ar gynlluniau cyfalaf yn ystod y chwarter cyntaf o 2015/16, o'i gymharu â 10% yn y cyfnod cyfatebol llynedd.

- Ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2015/16 - 2017/18.

**Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Rwy'n cymeradwyo'r adroddiad a'r argymhellion ynddo.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiad**
Adroddiad manwl, rhan 1-2, ar dudalennau 3-5.

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2015/16 i 2017/18

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Mehefin 2015 yn erbyn y gyllideb wreiddiol:

### SYMUDIAD O'R GYLLIDEB AGORIADOL I DDIWEDD Y CHWARTER CYNTAF

| | CYLLIDEB AGORIADOL | | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIADAU LLITHRIADAU | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | CYFANSWM | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | CYFANSWM | | | |
| **ADRAN** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 16,374 | 14,659 | 5,703 | 36,736 | 14,869 | 16,449 | 5,703 | 37,021 | 285 | 244 | 41 |
| Cyllid | 894 | 448 | - | 1,342 | 804 | 560 | - | 1,364 | 22 | 250 | (228) |
| Economi a Chymuned | 4,217 | 610 | - | 4,827 | 5,147 | 656 | - | 5,803 | 976 | 854 | 122 |
| Tai | 2,283 | 2,237 | - | 4,520 | 3,153 | 2,238 | - | 5,391 | 871 | (31) | 902 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,545 | 96 | 155 | 1,796 | 775 | 397 | 155 | 1,327 | (469) | 103 | (572) |
| Plant a Theuluoedd | - | - | - | - | 10 | - | - | 10 | 10 | - | 10 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 3,430 | 1,519 | 1,992 | 6,941 | 4,378 | 1,979 | 2,702 | 9,059 | 2,118 | 727 | 1,391 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 160 | - | - | 160 | 61 | 105 | | 166 | 6 | 29 | (23) |
| Rheoleiddio | 6,228 | 3,620 | 18 | 9,866 | 12,013 | 3,619 | 18 | 15,650 | 5,784 | 2,141 | 3,643 |
| Ymgynghoriaeth | 58 | - | - | 58 | 128 | - | - | 128 | 70 | - | 70 |
| Corfforaethol | - | 202 | - | 202 | - | 202 | - | 202 | - | - | - |
| **CYFANSWM** | **35,189** | **23,391** | **7,868** | **66,448** | **41,338** | **26,205** | **8,578** | **76,121** | **9,673** | **4.317** | **5,356** |

**1.2** Bu sefyllfa gwir wariant o £8.9miliwn (sydd bron yn 22% o'r gyllideb yn ei gyfanrwydd am 2015/16) hyd at ddiwedd mis Mehefin 2015, o'i gymharu â 10% o'r gyllideb am y cyfnod cyfatebol yn 2014/15.

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae cynnydd o £9.673m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb agoriadol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | CYLLIDEB AGORIADOL | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIADAU LLITHRIADAU | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | | | |
| | £000 | £000 | £000 | £'000 | £'000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 6,637 | 6,637 | 2,817 | 6,637 | 6,637 | 2,817 | - | - | - |
| Benthyca heb gefnogaeth | 5,858 | 5,775 | 0 | 7,392 | 7,424 | 0 | 3,183 | 269 | 2,914 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 10,205 | 8,017 | 2,886 | 13,210 | 8,027 | 2,886 | 3,015 | 2,878 | 137 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,519 | 468 | 0 | 1520 | 514 | 0 | 47 | 9 | 38 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 4,440 | 1245 | 0 | 4,484 | 1,245 | 0 | 44 | 10 | 34 |
| Cronfa Cyfalaf | 3,874 | 200 | 155 | 3,353 | 859 | 155 | 138 | 711 | (573) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 2,656 | 1,049 | 2,010 | 4,742 | 1,499 | 2,720 | 3,246 | 440 | 2,806 |
| **CYFANSWM** | **35,189** | **23,391** | **7,868** | **41,338** | **26,205** | **8,578** | **9,673** | **4,317** | **5,356** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **66,448** | | | **76,121** | | | |

**2.2 Gwir Lithriadau o 2014/15**
Ar gyfer y gyllideb agoriadol eleni fe seiliwyd y lefel llithriadau i 2015/16 ar y sefyllfa a ragwelwyd yn y drydydd chwarter o 2014/15. Adroddwyd i gyfarfod 2 Mehefin o'r Cabinet ar sefyllfa diwedd y flwyddyn 2014/15, a nodwyd pryd hynny roedd lefel y gwir lithriad wedi cynyddu yn y chwarter olaf, fel y manylir uchod yn y golofn 'Addasiadau Llithriadau'. Eto, fel adroddwyd ar 2 Mehefin, nid oes unrhyw golled mewn ariannu i'r Cyngor oherwydd y llithriad yma. Fe eglurir gweddill y newidiadau fel a ganlyn.

**2.3 Benthyca Heb Gefnogaeth**
Cynnydd o £2,914,000 yn 2015/16 yn y dull yma o ariannu yn bennaf ar gyfer

- **Cynlluniau Cronfa Benthyciadau Tai (Gwasanaeth Tai) £900,474 2015/16** Benthyciad gan Lywodraeth Cymru am gyfnod o 15 mlynedd i'w ddefnyddio at ddibenion codi safonau tai yng Ngwynedd (adroddiad Cabinet 17 Mawrth 2015).
- **Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) £2,000,000 2015/16** - Addasiad technegol i'r ffynhonnell ariannu er mwyn cyfnewid grant a dderbynnir gan y Llywodraeth gyda benthyciad (gweler hefyd 2.4 isod). Ni fydd hyn yn cael effaith ar y cynlluniau o gwbl.

**2.4 Grantiau a Chyfraniadau**

Cynnydd net o £137,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) Lleihad £2,000,000 2015/16**
  Addasiad technegol i gyfnewid grant am fenthyciad (gweler hefyd 2.3 uchod)
- **Pont Briwet (Adran Rheoleiddio) £900,881 2015/16**
  Cyfraniad Network Rail at gostau ychwanegol ar y cynllun yma yn unol â'r cytundeb gwreiddiol.
- **Cynlluniau Cronfa Trafnidiaeth Leol (Adran Rheoleiddio) - £735,760 yn 2015/16**
  Derbyniwyd ariannu ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant ar y prif gynlluniau isod:
  - Croesfan Rheilffordd Pont Britannia, Porthmadog £332,960
  - Mynediad i Faes Awyr Llanbedr £206,000
  - Llwybrau Diogel i Ysgolion – Ysgol Friars ac Ysgol Cae Top £189,800
- **Cynllun Bwrdd Deifio Pwll Nofio Bangor (Adran Economi a Chymuned) - £184,940 yn 2015/16**
  Cafwyd grant gan Gyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer uwchraddio cyfleusterau deifio ym mhwll nofio Bangor.
- **Cynllun Llwybr yr Arfordir (Gwedd 2) (Adran Rheoleiddio) £138,000 yn 2015/16**
  Derbyniwyd grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cynlluniau i ehangu mynediad i'r arfordir.

**2.5 Derbyniadau Cyfalaf**

Cynnydd net o £38,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf ar gyfer prynu darn o dir wrth ymyl yr ysgol yn Cefn Coch, Penrhyndeudraeth (Adran Addysg) am £40,000 yn ystod 2015/16.

**2.6 Refeniw Adrannol a Chorfforaethol**

Cynnydd net o £34,000 yn y dull yma o ariannu, ar amryw o fan gynlluniau.

**2.7 Cronfa Cyfalaf**

Lleihad o £572,500 yn y dull yma o ariannu yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth i ariannu cynllun Sustemau Rheoli Gofal Cymunedol (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) eu hunain.

**2.8 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill**

Cynnydd net o £2,806,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf ar gynlluniau Rheoli Carbon (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, a'r Adran Rheoleiddio – Uned Eiddo). Cymeradwywyd :

- i uwchraddio goleuadau stryd i 'LED' (£1,410,000 dros 3 mlynedd) sydd wedi ei ariannu o'r gronfa Buddsoddi i Arbed (adroddiad i'r Cabinet 5/5/15), a
- Cynllun Carbon Dau (adroddiad i'r Cabinet 23/6/15) ac fe welir yma ran o'r pecyn ariannu perthnasol o'r Gronfa Rheoli Carbon.

**2.9 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2015/16 i 2017/18, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu berthnasol (para. 2.2 i 2.8 uchod).**